**Eitem Agenda Rhif 9**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Mawrth 20fed., 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Stuart Davies, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Seilwaith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Mike Hitchings, Pennaeth Gweithrediadau - Priffyrdd a Seilwaith** |
| **Teitl:** | **Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru - Cytundeb Partneriaeth Newydd (2012).** |

---

## 1. Ynglŷn â be mae'r adroddiad?

Am nifer o flynyddoedd, awdurdodau lleol sy wedi ymgymryd â rheolaeth a chynhaliaeth cefnffyrdd yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru bellach) a hynny trwy gytundeb asiantaeth.

Fe gytunodd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i greu Partneriaeth Gogledd Cymru, gyda Chyngor Sir Gwynedd yn gweithredu fel partner arweiniol, er mwyn galluogi Gwynedd i lunio cytundeb ffurfiol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd. Mae'r cytundeb rhwng y partner-awdurdodau wedi'i sicrhau trwy Gytundeb Partneriaeth, a gytunwyd yn 2005.

Er mwyn adlewyrchu'r newid amgylchiadau sy wedi digwydd mewn niferoedd partneriaid ers 2005 a'r datblygiadau diweddara' fel y cynhwysir yn yr adroddiad hwn, mae bellach angen cytuno ar Gytundeb Partneriaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru newydd.

## 2. Be ydi'r rheswm am baratoi'r adroddiad hwn?

I'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r cefndir, y datblygiadau diweddara' a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a'r angen am Gytundeb Partneriaeth newydd gyda golwg ar Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

## 3. Be ydi'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i gymryd rhan yn y bartneriaeth a'u bod yn dod yn rhan o'r Cytundeb Partneriaeth newydd mewn egwyddor fel yn y drafft yn amgaeedig yn Atodiad 2, (ond yn amodol ar unrhyw welliannau a argymhellir gan Bennaeth Priffyrdd a seilwaith a'i gadarnhau gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd).

## 4. Manylion yr Adroddiad.

*GWYBODAETH GEFNDIR*

4.1 Mae cyfrifoldeb am y rhwydwaith cefnffyrdd yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru, gyda rheolaeth a chynhaliaeth y cefnffyrdd hyn yn hanesyddol wedi eu hymgymryd gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae'r map yn Atodiad 1 yn dangos y rhwydwaith o gefnffyrdd yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

4.3 Yn 2005, fe benderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel ag yr oedd ar y pryd, ei bod yn dymuno delio gyda llai o Awdurdodau Lleol gan ganoli ei gweithrediadau o gwmpas 3 ardal, yn yr un ar gyfer Gogledd, Canolbarth a De Cymru.

4.4 Fe gytunodd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ffurfio Partneriaeth Gogledd Cymru ymysg y 6 awdurdod gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel partner arweiniol, er mwyn llunio cytundeb ffurfiol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.5 Felly, fe ddaeth Cyngor Gwynedd yn rhan o gytundeb asiantaeth yn 2005 gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ran y bartneriaeth. Fe gytunodd pob partner-awdurdod i ymgymryd â rheolaeth a chynhaliaeth y gefnffordd yn eu hardal er mwyn cyflawni goblygiadau'r cytundeb asiantaeth hwnnw.

4.6 Roedd y cytundeb asiantaeth presennol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod i ddod i ben ym mis Hydref 2010, ond gan eu bod eisiau ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau presennol, fe estynnwyd y trefniadau hyd at fis Ebrill 2012.

4.7 Fe ysgogwyd yr adolygiad gan ddymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu a ydi'r trefniadau sy'n gweithredu yn Lloegr (lle bo cefnffyrdd yn cael eu rheoli ac ymgymerir y gwaith gan y sector preifat) yn darparu gwell gwerth am arian.

4.8 Fe gomisiynwyd gwerthusiad buddion ariannol y ddau fath o drefniant ynghyd ag archwiliad o'r buddion economaidd ehangach yn deillio o'r trefniadau presennol.

4.9 Fel rhan o'r adolygiad hwn, fe greodd awdurdodau lleol Gogledd Cymru bapur tystiolaeth yn nodi buddion a ddeilliodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r trefniadau presennol a hefyd y buddion sy'n deillio i'r rhwydwaith priffyrdd ehangach. Fe gyfarfu swyddogion Cyngor Gwynedd hefyd gydag unigolion yn ymgymryd â'r asesiad economaidd er mwyn tanlinellu pwysigrwydd y trefniadau presennol i'r economïau lleol a maint a natur y swyddi a gollid petai'r trefniadau presennol yn cael eu diddymu.

4.10 Ni ellir gor-bwysleisio'r buddion i Awdurdodau Lleol o gadw'r trefniadau presennol, o ran cyflogaeth leol yn ogystal â'r darbodion maint a fforddiwyd i

rwydwaith ffyrdd y sir. Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol pob Awdurdod yn cytuno ar y mater hwn.

*Datblygiadau diweddara’*

4.11 Yn union cyn etholiadau diwetha’r Cynulliad, fe sgwennodd y Gweinidog ar y pryd at Gyngor Gwynedd fel asiant, yn datgan ei fod wedi dod i benderfyniad terfynol ar y mater gan gyhoeddi ei fod yn bwriadu parhau gyda’r trefniadau presennol, yn amodol ar alluogrwydd, cymhwyster, perfformiad a gwerth am arian.

4.12 Mae hyn, wrth gwrs, yn newyddion da, gan y byddwn yn gallu parhau i rannu adennill gorbenion a chadw cyflogaeth leol.

4.13 Fodd bynnag, fe ddatganodd y Gweinidog hefyd ei fod yn dymuno lleihau’r nifer o asiantaethau a chyhoeddodd ei fod yn bwriadu diddymu cytundeb asiantaeth Canolbarth Cymru. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd y sylwadau y byddai’n fuddiol i’r ardaloedd Cefnffyrdd fod yn gydffiniol â Chonsortia Taith a TRACC ac y dylai asiantaeth Canolbarth Cymru ymuno ag un Gogledd Cymru - fe gytunodd â’r farn honno. Mae hyn hefyd yn newyddion da, gan ei fod yn rhoi mwy o gadernid i endid Gogledd Cymru gan ei fod bellach oddeutu’r un maint ag un De Cymru.

4.14 Fe gynigwyd y bydd y trefniadau newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2012 ac mae trafodaethau ers hynny wedi canoli ar uno’r ddwy uned cefnffyrdd (y bu Cyngor Gwynedd yn eu rheoli) a sefydlu’r cytundeb asiantaeth newydd.

*Y Cytundeb Asiantaeth newydd*

4.15 Fe deimlwyd nad oedd y cytundeb asiantaeth blaenorol yn addas gan ei fod wedi’i seilio ar y trefniadau masnachol sy’n weithredol yn Lloegr yn hytrach na’r dull o bartneriaeth a fabwysiadwyd yng Nghymru. Mae’r trafodaethau ar y cytundeb asiantaeth newydd wedi’u canoli ar sicrhau ei fod yn adlewyrchu arferion cyfredol.

4.16 Fodd bynnag, mae asiantaethau Gogledd a De Cymru fel ei gilydd yn ceisio sicrhau fod bwlch risg potensial a gynhwysid yn y cytundeb blaenorol yn cael ei gau. Roedd atebolrwydd blaenorol yn dilyn camau cyfreithiol yn amwys, lle gellid dal partner-awdurdod yn gyfrifol am weithred yn codi o nam/diffyg, na chafodd ei weithredu arni oherwydd cyfyngiadau ariannol gan Lywodraeth Cymru.

4.17 Fel canlyniad i’r mater hwn a phroblemau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ei hun, mae oedi sylweddol wedi bod wrth gwblhau’r cytundeb asiantaeth newydd. Bydd gofyn i Gyngor Gwynedd arwyddo hwn ac mae swyddogion ar drywydd swyddogion Llywodraeth Cymru i gau pen y mwdwl ar y ddogfennaeth.

4.18 Er gwaetha’r ffaith nad ydi’n debygol y bydd y Cytundeb Asiantaeth newydd yn cynnwys unrhyw beth gwahanol yn faterol o’i gymharu â’r Cytundeb presennol (heblaw am liniaru’r risg y cyfeiriwyd ato), fyddai hi ddim yn briodol i’r

awdurdod hwn arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth newydd hyd nes y cytunir ar y Cytundeb Asiantaeth newydd.

*Y Cytundeb Partneriaeth newydd*

4.19 Mae disgwyl i'r trefniadau newydd ddod i rym ar Ebrill 1, 2012 gan fod y cytundeb asiantaeth presennol yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw.

4.20 Mae Cyngor Gwynedd felly o'r farn na allent nhw oedi rhagor ac wedi llunio Cytundeb Partneriaeth diwygiedig i sicrhau ei fod yn ei le ar gyfer Ebrill 1, 2012.

4.21 Fe atodir y Cytundeb Partneriaeth diweddara' fel Atodiad 2 ac fe'i ystyriwyd yng nghyfarfod Cydbwyllgor Cefnffyrdd Gogledd Cymru ar Chwefror 29ain., a' Chydbwyllgor Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ar Fawrth 5ed.

4.22 Mae'n nodi hawliau a goblygiadau pob partner i'r cytundeb ac mae union fanylder yr hyn mae pob partner wedi cytuno i'w ddarparu yn gynwysedig mewn Atodlen Darparwr Gwasanaeth, a fu'n destun trafodaethau rhwng swyddogion yr Uned Cefnffyrdd a swyddogion yr Awdurdod hwn.

4.23 Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn atgynhyrchu'n benna'r cymalau o gytundeb blaenorol Gogledd Cymru ond yn gwahaniaethu yn y ffaith ei fod bellach yn cynnwys awdurdodau Canolbarth Cymru yn ogystal ag awdurdodau Gogledd Cymru ac yn cynnwys rhai mân-addasiadau.

4.24 Y gwirionedd wrth gwrs ydi fod gweithredu'r Asiantaeth wedi gweithio'n dda dros y blynyddoedd diwetha' er budd yr holl bleidiau oedd ynghlwm ac mae'r addasiadau hyn wedi eu cynnwys er mwyn unioni'r mân-faterion sy wedi codi dros y cyfnod gweithredu diweddar.

4.25 Mae dyletswyddau'r Cydbwyllgor (a sefydlwyd o dan ddarpariaethau'r cytundeb partneriaeth) hefyd wedi'u hegluro a phroses cynyddol wedi'i gynnwys er mwyn unioni unrhyw broblemau mewn modd effeithiol ac effeithlon. Fe gynhwyswyd y rhain er mwyn egluro'r gwahaniaeth rhwng swyddogaethau'r Cydbwyllgor a rhai Taith/Tracc.

4.26 Fe sefydlwyd y Cydbwyllgor i sicrhau ein bod yn cyfarfod â goblygiadau'r Cytundeb Asiantaeth (hynny ydi cyflenwi anghenion Llywodraeth Cymru fel yr egwyddor i'r cytundeb) ac i sicrhau fod Cyngor Gwynedd, fel awdurdod arweiniol, yn trin y partneriaid mewn modd teg a chyfartal.

4.27 Mae materion mewn perthynas â pholisi trafnidiaeth yn uchelfraint Taith a Tracc ac mae'r mater hwn wedi achosi rhywfaint o ddryswch yn y gorffennol.

4.28 Fel y nodir yn 4.18 uchod, fe fyddai'n amhriodol i unrhyw bartner-awdurdod gytuno i'r Cytundeb Partneriaeth heb gymeradwyo'r Cytundeb Asiantaeth yn ffurfiol, goblygiadau'r hyn mae'r partner-Awdurdodau yn cytuno i'w gweithredu, ond rhaid inni fod mewn sefyllfa i symud yn gyflym unwaith y bydd y Cytundeb Asiantaeth ar gael.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Cysylltiadau gyda'r Cynllun Corfforaethol a'r Gofrestr Risg

***Unrhyw oblygiadau cydraddoldebau, cynaliadwyedd a bioamrywiaeth (Os ydi'r cynnig yn effeithio gweithwyr cyflogedig a'n/neu'n cwsmeriaid, dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)***
Dim.

*Effaith/argraff ar bolisïau a gweithdrefnau presennol*
Dim.

**6. Faint fydd y gost a sut fydd yr effaith ar wasanaethau eraill?**

Parhad cyflogaeth leol a darbodion maint.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd eisoes?**

Fe ymgynghorwyd â'r Cyng. Sharon Frobisher ynglŷn â'r cynnig.

**8. Datganiad Prif Swyddog Cyllid**

*Datganiad y Prif Swyddog Cyllid i'w gynnwys yma, os oes angen un (mae datganiadau'n orfodol ar gyfer adroddiadau i'r Cabinet, y Cyngor a phenderfyniadau dirprwyol).*

**9. Pa risgiau sy ac oes unrhyw beth allwn ni ei wneud i'w lleihau?**

Gan gymryd yn ganiataol fod prif delerau ac amodau'r Cytundeb Asiantaeth newydd yr un peth â'r trefniant blaenorol, mae'r agweddau a'r risgiau ariannol sy ynghlwm fwy neu lai'r rhai sy mewn grym ar hyn o bryd.

Yn wir, os i'r cytundeb newydd gau'r bwlch a nodir yn 4.16, fe fydd y risgiau i'r awdurdod yn lleihau.

Y risg ariannol fwya' ydi os penderfynwn beidio a chymryd rhan yn y cytundeb partneriaeth, gan bryd hynny, byddwn yn colli'r buddion o rannu gorbenion a cholli'r buddion i'r economi leol.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

*Nodiadau adran: Mae hyn yn cyfeirio at y sail statudol [dyletswydd neu bŵer] sy'n galluogi gwneud y penderfyniad, e.e. Adran XXI o Ddeddf ABC 1936. Cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol os yn ansicr o'r Ddeddf / Adrannau perthnasol sy mewn gweithrediad.*